Royal Mint Museum

# CYSTADLEUAETH STORI FER

# Dyfodol Cynaliadwy

## Sut i ysgrifennu stori

Yn y Bathdy Brenhinol, rydym yn ceisio bod yn fwy cynaliadwy er mwyn helpu i greu dyfodol gwell. Sut le fydd dyfodol gwell i'r hinsawdd, yn eich tyb chi?
Cyn dechrau ysgrifennu eich stori, gwnewch rywfaint o ymchwil i wneud yn siŵr bod eich stori'n cyfateb i'r briff. Rydym wedi darparu gwybodaeth a dolenni'n sôn am y pwnc, er mwyn eich rhoi ar ben ffordd
https://www.royalmintmuseum.org.uk/learning/

## Beth rydych angen ei ystyried cyn dechrau ysgrifennu?

### Pwrpas

'Dyfodol cynaliadwy' yw'r pwnc, felly dylech seilio eich stori ar y pwnc hwn. Ond am beth ydych chi eisiau sôn yn eich stori? Sut ydych chi eisiau i'r darllenwyr deimlo? Efallai eich bod eisiau iddyn nhw deimlo'n hapus ac yn obeithiol ynglŷn â'r dyfodol, neu gael eu cyffroi gan eich stori. Neu efallai eich bod eisiau iddyn nhw deimlo'n drist. Gallwch ysgrifennu stori ddoniol a fydd yn gwneud i'r darllenwyr chwerthin.
Ar ôl penderfynu ar bwrpas eich stori, meddyliwch sut y gallwch gyflawni hyn a pha eiriau y gallwch eu defnyddio i osod y cywair.

### Lleoliad

Ble ydych chi eisiau lleoli eich stori? Ble fydd y pethau pwysig yn digwydd? A ydych chi am leoli eich stori yn rhywle cyfarwydd, ynteu yn rhywle nad ydych erioed wedi bod yno o'r blaen? Gallwch greu byd newydd hollol ddychmygol.
Gallwch leoli eich stori yn unrhyw le dan haul, ond rhaid iddo wneud synnwyr o ran plot a phwrpas eich stori.

## Cymeriadau

Pwy fydd seren eich stori? Ai chi, rhywun dychmygol ynteu rhywun go iawn? Gallwch ddefnyddio cymeriad hanesyddol. Efallai y byddwch yn cynnwys llawer o bobl yn eich stori.
Does dim rhaid i seren eich stori fod yn berson – gall fod yn anifail, fel yr anifeiliaid ar ddarnau arian y Bathdy Brenhinol, neu'n estron o blaned arall. Neu gallwch hyd yn oed ysgrifennu stori am wrthrych, fel darn arian!

## Strwythur

Pan fyddwch yn ysgrifennu eich stori, gwnewch yn siŵr bod ganddi ddechrau, canol a diwedd.

**DECHRAU** yn y fan hon, dylech osod y llwyfan a chyflwyno eich cymeriadau.

**CANOL** dyma ble bydd y pethau pwysig yn digwydd.

**DIWEDD** yn y fan hon, dylech ddirwyn eich stori i ben.

# Worksheet

**Defnyddiwch y daflen waith isod i'ch helpu i gynllunio rhai syniadau ar gyfer eich stori.**

## Lleoliad

Defnyddiwch y blwch hwn i ysgrifennu ambell syniad ar gyfer ble yr hoffech leoli eich stori.

**A yw eich stori wedi'i lleoli ar y ddaear ynteu yn rhywle arall, fel planed arall neu yn y gofod?**

**A yw eich stori wedi'i lleoli yn y gorffennol, y presennol ynteu'r dyfodol?**

## Plot

Defnyddiwch y blwch hwn i ysgrifennu ambell syniad ar gyfer y pethau a fydd yn digwydd yn eich stori.

**A yw pobl wedi dod o hyd i ffordd gynaliadwy o fyw?**

**A yw'r byd wedi llwyddo i ddatrys yr argyfwng hinsawdd?**

## Cymeriadau

Defnyddiwch y blwch hwn i ysgrifennu ambell syniad ar gyfer y cymeriadau yn eich stori.

**Beth yw enwau'r cymeriadau?**

**Sut olwg sydd arnyn nhw?**

**Ai pobl, anifeiliaid ynteu creaduriaid dychmygol o'r dyfodol ydyn nhw?**

## Sut i gystadlu

I gael rhagor o wybodaeth am y gystadleuaeth stori fer, cymerwch gipolwg ar ein gwefan https://www.royalmintmuseum.org.uk/learning/
Neu anfonwch e-bost atom i'r cyfeiriad storycompetition@royalmintmuseum.org.uk